Lawrlwytha'r PDF
oddi ar www.jw.org

Joseff yn yr Aifft

GENESIS PENODAU 39-40



www.jw.org © 2016 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania



www.jw.org © 2016 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania

www.jw.org © 2016 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania

UN DIWRNOD, GWELODD JOSEFF DDAU DDYN YN Y CARCHAR A OEDD YN ARFER GWEITHIO I **PHARO,** BRENIN YR AIFFT.

PAM RYDYCH CHI'N EDRYCH MOR **DDIGALON** HEDDIW?

CAWSON NI **FREUDDWYDION** NEITHIWR.

OND DOES NEB YN GALLU ESBONIO'R YSTYR INNI.

GWELAIS I **DAIR CANGEN** O **RAWNWIN** AR WINWYDDEN. DYMA FI'N GWASGU'R SUDD I MEWN I **GWPAN PHARO** A'I ROI IDDO.

DIM OND **DUW** SY'N MEDRU ESBONIO'R YSTYR. **BETH OEDD Y BREUDDWYDION,** DYWEDWCH?

YN FY MREUDDWYD I, ROEDDWN I'N CARIO **TAIR BASGED** O FARA AR FY MHEN. OND ROEDD YR ADAR YN **BWYTA BARA PHARO** O'R FASGED UCHAF.

DYMA YSTYR DY FREUDDWYD. YMHEN **TRI DIWRNOD** CEI DI DY **SWYDD YN ÔL GAN PHARO.** OND **COFIA AMDANA I,** A SONIA WRTH PHARO AMDANA I, ACHOS CES I FY NGHIPIO O'M CARTREF, A DYDW I DDIM YN HAEDDU BOD YN Y CARCHAR.

DYMA YSTYR DY FREUDDWYD. YMHEN **TRI DIWRNOD** BYDD PHARO YN **DY LADD DI!**

AR Y TRYDYDD DYDD, AR BENBLWYDD PHARO, CAFODD Y CARCHAROR CYNTAF EI **SWYDD YN ÔL.** OND CAFODD YR AIL GARCHAROR EI **LADD.**

AETH **AMSER** HEIBIO . . . OND **ANGHOFIODD** Y CARCHAROR CYNTAF SÔN WRTH PHARO AM JOSEFF. OND A OEDD **JEHOFA** WEDI ANGHOFIO AM JOSEFF? A FYDDAI JOSEFF YN **DOD ALLAN** O'R CARCHAR? DARLLENA'R STORI NESAF I WELD SUT ROEDD JOSEFF YN MEDRU HELPU, NID YN UNIG **EI DEULU,** OND **CENEDL** GYFAN!

BETH RYDYN NI'N EI DDYSGU O HANES JOSEFF YN YR AIFFT?

PAM ROEDD JOSEFF YN **UFUDD** I JEHOFA HYD YN OED PAN OEDD YN **BELL** O'I DEULU?
CLIW: DIARHEBION 15:3.

PAM **RHEDODD JOSEFF I FFWRDD** PAN GEISIODD GWRAIG POTIFFAR EI HUDO I BECHU?
CLIW: GENESIS 39:9.

OS YDYN NI'N **DALENTOG** NEU'N **LLWYDDIANNUS,** BETH DYLEN NI EI **GOFIO?**
CLIW: GENESIS 39:3, 23; 1 CORINTHIAID 4:7.

www.jw.org © 2016 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania